

# Celtiaid Clasurol

## Cymru a’r Alban

## yng ngoleuni Groeg a Rhufain

Cynhadledd undydd yn trafod dylanwad Clasurol
ar deithwyr y cyfnod Rhamantaidd i Gymru ac i’r Alban

19 Medi 2014

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Am ddim

Amserir y gynhadledd hon i gyd-fynd ag arddangosfa ryngwladol o ddarluniau gan yr artist Richard Wilson (1714-1782). Daw arbenigwyr o wahanol feysydd at ei gilydd i drafod dylanwad Groeg a Rhufain ar deithwyr i Gymru ac i’r Alban yn ystod y cyfnod Rhamantaidd. Gan adlewyrchu natur amryfal ysgrifau teithio yr adeg honno, ystyrir ymatebion testunol, gweledol, hynafiaethol a gwyddonol i dirluniau y ddwy wlad yn ail hanner y 18fed ganrif. I ba raddau y gwelai artistiaid ac awduron gyferbyniad rhwng diwylliannau’r Gogledd a’r De? A sut oedd addysg Glasurol a theithio yng Nghroeg a Rhufain wedi dylanwadu ar eu ffordd o edrych ar dirwedd Prydain, a’u dealltwriaeth o’r gorffennol Prydeinig?

Prif-ddarlith: Professor Robin Simon, “To Rival Claude”: Richard Wilson and Classical Imitation’

Siaradwyr: Jacqueline Ansell, Mary-Ann Constantine, Harriet Guest, Oliver Fairclough,
Allison Ksiazkiewicz, Maureen McCue, Dafydd Moore, Prys Morgan.

Trefnir y digwyddiad hwn ar y cyd gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Mae’n nodi cychwyn prosiect newydd dan ofal y Ganolfan & Phrifysgol Glasgow, gyda nawdd yr AHRC: *Teithwyr Chwilfrydig: Thomas Pennant a theithiau i Gymru ac i’r Alban 1760-1815.*

Am ddim, ond er mwyn inni nodi niferoedd wnewch chi gofrestru erbyn 1 Medi gyda: **a.elias@cymru.ac.uk.**

Neu ymweld â [www.wales.ac.uk/en/CentreforAdvancedWelshCelticStudies/NewsEvents/Events.aspx](www.wales.ac.uk/en/CentreforAdvancedWelshCelticStudies/NewsEvents/Events.aspx)

Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies

Arts & Humanities Research Council